

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 7 Tachwedd 1996

Cynnwys

	<i>Rhif y Paragraff</i>
Cyflwyniad	1
Rôl Canllawiau ar Ddylunwaith	4
Meini Prawf ar gyfer Ymdrin â Cheisiadau Hysbysebion	6
Ystyried Amwynder	7
Ystyriaethau Diogelwch y Cyhoedd	10
Polisiau Rheoli Hysbysebion	12
Rhesymau dros Benderfyniadau Rheoli Hysbysebion	13
Amodau Rheoli Hysbysebion	14
Hysbysebion mewn Ardaloedd Cadwraeth	16
Adeiladau Rhestredig a Henebion	18
Ardaloedd Dynodedig ac Ardaloedd Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion	19
Pwer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Cyfarwyddiadau	22
Y Pwer i Ddirwyn Hysbysebion Caniatâd Tybiedig i ben	23
Gweithredu'r System Rheoli Hysbysebion	25
Apelau at yr Ysgrifennydd Gwladol	26
Dilead	27
Meini Prawf ar gyfer Penderfynu ar Geisiadau ac Apelau sy'n Cynnwys Safleoedd Poster	<i>Atodiad A</i>

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 7

Tachwedd 1996

Cyflwyniad

1. Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â "Chanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio". Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gymryd Canllawiau Cynllunio, Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyrau i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a chânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Arolygwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio wedi'u galw i mewn ac apelau.

2. Mae'r dogfennau a restrir yn y golofn Cyfeiriad yn yr ymyl yn cynnig gwybodaeth a ddylai gael ei darllen ar y cyd â'r TAN.

3. Mae'r drefn reoli a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn galluogi'r awdurdodau cynllunio lleol i reoli bron pob hysbyseb awyr agored er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd. Mae rhai mathau o hysbysebion wedi'u hesemptio o reolaeth fanwl; ac mae categorïau penodedig eraill o hysbysebion yn gymwys i gael caniatâd tybiedig, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r amodau a'r cyfyngiadau a ddatganwyd ar gyfer pob categori.

Cyfeiriad

***Cylchlythyr
14/92 y Swyddfa
Gymreig, Town and
Country Planning
(Control of
Advertisements)
Regulations 1992***

***Cylchlythyr
70/94 y Swyddfa
Gymreig, Town and
and Country
Planning (Control
of Advertisements)
(Amendment)
Regulations 1994***

***Rheoliadau
Cynllunio Gwlad a
Thref (Rheoli
Hysbysebion) 1992
(OS Rhif 1992/666)***

***"Outdoor
Advertisements and
Signs - A Guide for
Advertisers" Adran
yr Amgylchedd a'r
Swyddfa
Gymreig, 1995***

[Brig y Dudalen](#)

Rôl Canllawiau ar Ddylunwaith

4. Gall awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu canllawiau ar ddylunwaith hysbysebion awyr agored a blaenau siopau, yn enwedig ar gyfer ardaloedd cadwraeth neu fannau lle mae adeiladau brodorol yn chwarae rhan bwysig yng ngolwg y gymdogaeth. Mae angen i'r canllawiau hyn gydnabod pwysigrwydd hysbysebion i'r economi cenedlaethol ac ni ddylent fygu dyluniadau gwreiddiol na thechnegau arddangos newydd.

5. Dylai'r dylunwyr fod yn barod i gyfaddawdu ynglyn â dyluniadau corfforaethol lle nad ydynt yn addas mewn ardal benodol, ond ni ddylid gwrthod dyluniadau corfforaethol yn unig am nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn hoffi'r dyluniad.

***Nodyn Cyngor
Technegol (Cymru)
4 Manwerthu a
Chanol Trefi, 1996***

Meini Prawf ar gyfer Ymdrin â Cheisiadau Hysbysebion

6. Mae'r ymagwedd gyffredinol at ymdrin â cheisiadau hysbysebion yn debyg i'r broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio ond gyda dau wahaniaeth pwysig. I ddechrau, dim ond er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd y gellir rheoli arddangos hysbysebion awyr agored. Yn ail (gydag un eithriad bach mewn Mannau Rheolaeth Arbennig, lle mae angen i geisydd ddangos gofyniad rhesymol am hysbyseb), derbynnir bod ar unrhyw un sy'n bwriadu arddangos hysbyseb angen yr hysbyseb honno yn y lleoliad penodol hwnnw, boed am resymau masnachol neu am resymau eraill.

***Rheoliadau
CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 19(2)(b)***

Ystyried Amwynder

7. Mae busnesau sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad yn disgwyl cael hysbysebu eu lleoliad, yn enwedig i ymwelwyr, ond dylid cymryd gofal i sicrhau bod arwyddion wedi'u dylunio a'u lleoli i gydweddu â'u cefndir, ac na fydd toeth o hysbysebion sy'n dderbyniol yn unigol yn difetha golygfa cefn gwlad agored. Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid annog busnesau yn yr un lleoliad cyffredinol, neu mewn cymunedau sydd â ffyrdd osgoi, i gyfuno'u hanghenion hysbysebu hanfodol er mwyn osgoi toeth o rag-arwyddion. Gall y bydd cymunedau â ffyrdd osgoi yn dymuno ystyried a ellir cynhyrchu arwydd priffordd swyddogol i ddiwallu anghenion yr holl gymuned.

***Canllawiau
Cynllunio (Cymru):
Polisi Cynllunio,
1996,
paragraff 195***

8. Pan fo'n briodol ystyried pa mor llachar y dylid goleuo hysbysebion, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r canllawiau sydd ar gael.

**Adroddiad
Technegol Rhif 5
Sefydliad y
Peirianwyr Goleuo
(Ail Argraffiad)
sydd ar gael oddi
wrth Sefydliad y
Peirianwyr Goleuo,
Lennox House,
9 Lawford Road,
Rugby, CV21 2DZ**

9. Cynhwysir canllawiau ar hysbysfyrddau mawr i bosteri yn Atodiad y nodyn hwn.

Ystyriaethau Diogelwch y Cyhoedd

10. Wrth asesu effaith hysbyseb ar ddiogelwch y cyhoedd, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'w heffaith ar ddefnydd a gweithrediad diogel unrhyw fath o draffig neu drafnidiaeth ar dir (gan gynnwys diogelwch cerddwyr), ar ddwr neu drosto, ac yn yr awyr, gan gynnwys ymddygiad tebygol gyrwyr cerbydau a fydd yn gweld yr hysbyseb, dryswch posibl gydag unrhyw arwydd traffig neu arwydd arall, ac ymyriad posibl â goleuadau llywio neu olau yn yr awyr.

**Cylchlythyr 14/92
y Swyddfa Gymreig,
Atodiad,
Ychwanegiad B**

**Canllawiau
Cynllunio (Cymru):
Polisi Cynllunio,
1996, paragraff 194**

11. Wrth ystyried ffactorau diogelwch y cyhoedd, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â chyrrff perthnasol eraill, megis yr awdurdod priffyrdd, sydd â diddordeb.

Polisiâu Rheoli Hysbysebion

12. Gall polisiâu mewn cynlluniau datblygu sy'n rheoli hysbysebion awyr agored mewn ardaloedd, neu mewn rhannau penodol o ardaloedd lle y bydd arddangos hysbysebion gwael eu dylunwaith yn arbennig o niweidiol, yn ffactor berthnasol wrth ystyried cais am hysbyseb. Bydd cynlluniau datblygu yn dwyn mwy o bwysau. Dylai datganiadau polisi roi canllawiau clir i ddarpar-hysbysebwr ynghylch pa mor debygol yw eu cynigion o gael eu derbyn a darparu sail ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau hysbysebion. Er y gall polisiâu rheoli hysbysebion neu ganllawiau dylunio fod wedi'u ffurfio gan roi sylw i faterion amwynder a diogelwch y cyhoedd, ni all cyfeiriadau at y polisiâu a'r canllawiau hyn ynddynt eu hunain fod y ffactor sy'n penderfynu a ganiateir hysbyseb ai peidio. Bydd bob amser yn angenrheidiol asesu rhinweddau'r hysbyseb y bwriedir ei harddangos o safbwynt amwynder a diogelwch y cyhoedd a hynny mewn perthynas â safle'r cais penodol.

Rhesymau dros Benderfyniadau Rheoli Hysbysebion

13. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol roi rhesymau dros unrhyw benderfyniad i wrthod hysbyseb sy'n gyflawn, cryno, eglur, penodol a pherthnasol i'r cais penodol. Dylent ddatgan pam y mae cynnig hysbyseb yn groes i fuddiannau amwynder, neu'n niweidiol i ddiogelwch cyhoeddus, **ar y safle penodol**.

Amodau Rheoli Hysbysebion

14. Pan nad yw hysbyseb sy'n dod o dan Reoliadau 1992 yn gymwys ar gyfer caniatâd tybiedig, rhaid gwneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd penodol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ychwanegol ag y gwelant yn dda. Gall defnyddio'r pŵer hwn alluogi'r awdurdod cynllunio lleol i ganiatáu cynnig am hysbyseb a fyddai fel arall wedi'i wrthod. Rhaid i bob hysbyseb awyr agored gydymffurfio â'r 5 amod safonol a osodwyd gan Reoliadau 1992.

***Rheoliadau
CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 13***

15. Ni ddylai'r awdurdodau cynllunio lleol geisio gosod amodau ynglyn â hysbysebion pan fyddant yn rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n digwydd cynnwys nodweddion hysbysebu, yn enwedig lle mae'r amod yn honni cyfyngu, neu ddileu, y fantais o unrhyw ganiatâd tybiedig ar gyfer arddangos hysbyseb a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rhinwedd darpariaethau Rheoliad 6.

Hysbysebion mewn Ardaloedd Cadwraeth

16. Lle mae ardal wedi'i dynodi fel ardal gadwraeth, rhaid rhoi "sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno" wrth ymarfer unrhyw un o'r darpariaethau yn y Deddfau Cynllunio. Mae hyn yn cynnwys rheoli hysbysebion awyr agored.

***Ddeddf Cynllunio
(Adeiladau
Rhestredig ac
Ardaloedd
Cadwraeth) 1990,
Adran 72(1)***

***Cylchlythyr y
Swyddfa Gymreig,
Cynllunio a'r
Amgylchedd
Hanesyddol:
Adeiladau
Hanesyddol ac
Ardaloedd
Cadwraeth, 1996***

17. Nid yw dynodi ardal gadwraeth o anghenraid yn cyfiawnhau ei diffinio hefyd fel "Ardal Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion". Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn ganolfannau masnachol llewyrchus lle mae'r amrediad arferol o hysbysebion ar eiddo masnachol i'w ddisgwyl, ar yr amod nad ydynt yn tynnu oddi ar yr amwynder gweledol. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolau ar hysbysebion yn hyblyg yn yr ardaloedd hyn, er mwyn cadw neu wella nodweddion penodol o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

Adeiladau Rhestredig a Henebion

18. Bydd bron pob hysbyseb ar adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig yn golygu addasiad i'r adeilad neu i'r heneb ac felly bydd angen caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd heneb cofrestredig yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd hysbyseb. Mae gofal arbennig yn hanfodol i sicrhau nad yw unrhyw hysbyseb a gaiff ei harddangos ar adeilad rhestredig neu heneb cofrestredig neu'n agos atynt, yn tynnu oddi wrth gyfanrwydd dyluniad, cymeriad hanesyddol neu strwythur yr adeilad, ac nad yw'n difetha nac yn cyfaddawdu ei leoliad.

***Cylchlythyr y
Swyddfa Gymreig,
Cynllunio a'r
Amgylchedd
Hanesyddol:
Adeiladau
Hanesyddol ac
Ardaloedd
Cadwraeth, 1996***

***Cylchlythyr y
Swyddfa Gymreig,
Cynllunio a'r
Amgylchedd
Hanesyddol:
Archaeoleg a
Chynllunio, 1996***

Ardaloedd Dynodedig ac Ardaloedd Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion

19. Yn y Parciau Cenedlaethol, mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mewn ardaloedd cadwraeth, mae rheolau llym yn gymwys fel arfer ynghylch arddangos hysbysebion nad oes angen caniatâd penodol yr awdurdod cynllunio lleol ar eu cyfer. Mae angen hefyd i geisiadau am ganiatâd penodol gael eu hastudio'n fanwl i sicrhau nad yw'r cynigion yn peryglu nodau dynodiad yr ardal.

20. Mae rheolau llymach ar hysbysu yn gymwys mewn Ardaloedd Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion. Ceir terfyn is ar yr uchder mwyaf a chyfyngiad ar faint mwyaf y llythrennau neu'r cymeriadau ar bob hysbyseb a ddangosir gyda chaniatâd tybiedig. Ni all rhai dosbarthiadau o hysbysebion, yn enwedig hysbysfyrdau posterï cyffredinol, gael eu harddangos o gwbl.

***Rheoliadau
CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 19***

21. Cyn cymeradwyo gorchymyn i greu Ardal Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion, rhaid cyfiawnhau mesur o ddiogelwch arbennig, ar sail amwynder. Yr ystyriaeth derfynol yw a oes angen mesur llymach o reolaeth, **yn ychwanegol at bwerau rheoli arferol yr awdurdod cynllunio lleol (gan gynnwys hysbysiadau dirwyn i ben)**, i atal arddangos hysbysebion a fyddai fel arall yn cael eu caniatáu. Bydd dynodi ardal fel ardal gadwraeth, er na fydd o bosibl yn derfynol, yn ffactor perthnasol: bydd pa mor wledig yw'r ardal hefyd yn ffactor perthnasol i'w gymryd i ystyriaeth. Cyn cynnig Ardal Rheolaeth Arbennig, mae disgwyl i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â chyrrff masnach a chyrrff amwynder lleol. Os caiff gorchymyn ei gymeradwyo, mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ei adolygu o leiaf bob 5 mlynedd, gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau a allai fod wedi digwydd yn yr ardal yn y cyfamser.

***Rheoliadau
CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 18,***

***Cylchlythyr 14/92 y
Swyddfa Gymreig
Town and Country
Planning (Control
of Advertisements)
Regulations 1992***

Pwer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Cyfarwyddiadau

22. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ddarostyngedig i ystyriaeth flaenorol ar unrhyw wrthwynebiadau, wneud cyfarwyddyd statudol sydd i bob pwrpas yn dileu manteision y darpariaethau caniatâd tybiedig ar gyfer unrhyw un o'r dosbarthiadau penodol o hysbysebion a bennir yn Atodlen 3 o Reoliadau 1992 (ac eithrio 3 mân eithriad) mewn ardal ddiffiniedig, neu mewn lle penodol, naill ai am gyfnod cyfyngedig neu'n amhenodol, mewn ymateb i gynnig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Cyn cyfarwyddo, bydd rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddangos y byddai'n gwella amwynder gweledol ac nad oes unrhyw ffordd effeithiol arall o reoli arddangosiad y dosbarth penodol hwnnw o hysbysebion. Fel rhan o'r broses hon, gofynnir i'r awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno datganiad wedi'i resymegu'n llawn; i ddangos bod y darpariaethau penodol ar ganiatâd tybiedig yn anfoddfaol yn amgylcheddol i'r ardal neu'r lle y mae'r cyfarwyddyd wedi'i gynnig ar eu cyfer; ymdrin â'r effeithiau andwyol ar amwynder gweledol; disgrifio'r camau adferol sydd eisoes wedi'u cymryd i leihau'r effeithiau hyn; rhoi manylion erlyniadau am unrhyw arddangosiadau anghyfreithlon; ac asesu canlyniadau tebygol gwneud y cyfarwyddyd. Dylid gofyn am sylwadau cyrff sydd â diddordeb ac unigolion y byddai'r cyfarwyddyd yn effeithio ar eu buddiannau, fel rhan o'r broses o benderfynu a yw cyfarwyddyd yn briodol ai peidio.

***Rheoliadau CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 7***

Y Pwer i Ddirwyn Hysbysebion Caniatâd Tybiedig i ben

23. Mae'r hawl i arddangos dosbarthiadau penodedig o hysbysebion gyda chaniatâd tybiedig yn ddarostyngedig i ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol i roi hysbysiad dirwyn i ben, sy'n ei gwneud yn ofynnol atal arddangosiad hysbysebion neu ddefnydd o safle hysbysebion. Dim ond lle mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn bod hysbyseb, neu ddefnydd o safle hysbysebion, yn achosi niwed sylweddol i amwynder neu'n peryglu diogelwch y cyhoedd y gellir defnyddio'r pwer dewisol hwn.

***Rheoliadau
CGTh (Rheoli
Hysbysebion) 1992,
Rheoliad 8***

24. Mae yna hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn hysbysiad dirwyn i ben. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried a yw'r hysbysiad yn angenrheidiol i gywiro niwed sylweddol i amwynder neu berygl i aelodau'r cyhoedd ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi gweithredu yng ngoleuni polisi rheoli hysbysebion sydd wedi'i lunio'n dda.

Gweithredu'r System Rheoli Hysbysebion

25. Lle nad oes angen mwy nag arwydd newydd ar wynebfwrdd neu arwyddfwrdd ar ei ben ei hun, mae'n hanfodol i'r perchennog neu'r deiliad gael penderfyniad cyflym ynghylch derbynoldeb y cynigion. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau bach, y mae angen iddynt sefydlu eu hunaniaeth yn gyflym ac sydd yn aml yn methu â fforddio'r amser a'r adnoddau y mae eu hangen i gyflwyno amrediad o ddewisiadau hysbysebion i gael eu hasesu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Gellir cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau drwy barodrwydd ar ran yr awdurdod cynllunio lleol i ddirprwyo penderfyniadau ynghylch materion rheoli hysbysebion i swyddogion sydd â chymwysterau addas.

Apelau at yr Ysgrifennydd Gwladol

26. Caiff apelau hysbysebion eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n anelu at gyhoeddi ei benderfyniad ar apêl o fewn 15 wythnos ar ôl iddo ddod i law mewn 80% o'r achosion.

Dilead

27. Mae Atodiad o nodyn 19 Canllaw Polisi Cynllunio, 'Outdoor Advertisement Control', wedi'i ddileu.

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 7

Tachwedd 1996

Atodiad A

MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GEISIADAU AC APELAU SY'N CYNNWYS SAFLEOEDD POSTERI

Cyffredinol

A1. Rhaid i unrhyw gais i awdurdod cynllunio lleol, neu apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n cynnwys arddangos poster, gael eu hystyried ar eu rhagoriaethau eu hunain gyda sylw i nodweddion cyffredinol yr ardal lle bwriedir ei arddangos. Er y gall ffactorau perthnasol eraill gael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar y cais neu'r apêl, mae'r Rheoliadau Rheoli Hysbysebion yn gofyn bod y pwerau rheoli'n cael eu hymarfer yn yr achosion canlynol yn unig:

- i. er lles amwynder (sy'n golygu amwynder gweledol y gymdogaeth lle bwriedir arddangos y poster); a
- ii. er lles diogelwch y cyhoedd (sy'n golygu diogelwch pobl sy'n defnyddio unrhyw ffordd o deithio y mae arddangos y poster yn debygol o effeithio arnynt).

A2. Wrth gymhwyso'r ymadrodd 'er lles amwynder' at unrhyw gais neu apêl benodol, dylid cymryd i ystyriaeth nid yn unig ffactorau a all amharu ar amwynder ond hefyd ffactorau a all fod o fantais i amwynder yr ardal, megis ychwanegu lliw a diddordeb priodol i ardal ddi-liw, neu sgrinio hagrwh.

A3. Er bod rhaid iddynt roi sylw i nodweddion cyffredinol yr ardal ac er y cânt anwybyddu'r hysbysebion presennol yn yr ardal wrth asesu ei nodweddion cyffredinol, er hynny dylai'r awdurdodau cynllunio lleol geisio sicrhau cysondeb yn eu hymagwedd gyffredinol at benderfynu ar geisiadau mewn ardaloedd penodol, a dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod yr un ymagwedd yn cael ei harddel mewn apelau.

A4. Dylai paneli posteri barchu graddfa'r lleoliad o'u cwmpas: lle cânt eu harddangos ar gwrth blaen, neu mewn man i gerddwyr, dylai eu dimensiynau gyd-fynd o ran eu graddfa â dodrefn eraill y stryd ac ni ddylai effaith yr arddangosiad fod yn llethol i gerddwyr yn yr ardal. Ond pan gaiff paneli posteri eu harddangos ar adeiladau, neu fel unedau ar eu pen eu hunain wrth ochr y briffordd, dylid eu cysylltu â graddfa'r adeiladau o'u cwmpas a rhoi sylw i gymesuredd neu nodweddion archaeolegol eu lleoliad. Gall tirlun caled neu feddal celfydd, wedi'i gynnal yn briodol, ychwanegu'n sylweddol at olwg arddangosiad o bosteri a'i helpu i gyd-doddi i'w hamgylchoedd.

Cefn gwlad agored

A5. Nid yw posteri hysbysebu yn addas yng nghefn gwlad agored, ac ni ddylid eu caniatáu fel rheol. Gall fod eithriadau dros dro, e.e. sioeau amaethyddol a digwyddiadau tebyg, ond dylid cyfyngu ar barhad yr arddangosfa i gyfnod addas sy'n arwain at y digwyddiad sy'n cael ei hysbysebu ac yn ystod y digwyddiad hwnnw.

Pentrefi

A6. Mewn pentrefi, bydd hysbysebu drwy gyfrwng posteri graddfa-fawr yn anaddas fel rheol, ond gall posteri llai fod yn briodol, yn ôl cymeriad y pentref a lleoliad yr arddangosfa arfaethedig mewn perthynas â'r adeiladau a'r nodweddion o'i chwmpas.

Ardaloedd preswyl

A7. Nid yw'n addas defnyddio posteri hysbysebu mewn unrhyw ardal sy'n ardal breswyl yn bennaf ac ni ddylid eu caniatáu fel rheol. Os oes cymysgedd dibenion mewn lleoliad, gyda siopau neu swyddi yn gymysg â datblygiadau preswyl, neu'n rhannu'r un adeilad mewn cyn-dai annedd, gall rhywfaint o hysbysebion poster fod yn dderbyniol pan fônt yn cyd-fynd yn agos â graddfa'r adeiladau o'u cwmpas,

ac wedi'u dylunio a'u lleoli er mwyn peidio ag ymyrryd â'r nodweddion neu'r tirnodau presennol.

Ardaloedd masnachol yn bennaf

(i) Cyffredinol

A8. Mewn amgylchoedd masnachol yn bennaf, gall graddfa'r adeiladau fod yn ddigon mawr i gymryd arddangosiadau o bosteri mawr heb amharu ar amwynder gweledol. Ond gall graddfa amgylchoedd masnachol amrywio'n fawr, hyd yn oed o fewn pellter byr yn yr un dref; a rhaid disgwyl i benderfyniadau ar geisiadau neu apelau mewn ardaloedd masnachol geisio cyplysu graddfa'r arddangosfeydd poster i graddfa'r adeiladau cyfagos.

A9. Mewn ardaloedd masnachol/preswyl cymysg, dylid cymryd llawer mwy o ofal wrth leoli hysbysebion poster nag mewn ardal gyfan gwbl masnachol, yn yr un ffordd yn union ag y dylid gofalu mwy wrth leoli gweithgareddau masnachol eraill.

(ii) Ar adeiladau

A10. Dylai panel poster ar adeilad gyd-fynd â graddfa'r adeilad. Ni ddylai dorri ar draws unrhyw nodweddion pensaernïol sydd gan yr adeilad oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol, e.e. ffenestri adeilad segur sy'n aros i gael ei ail-ddatblygu. Ni fydd hysbysebion poster graddfa-fawr yn briodol ar adeiladau rhestredig fel rheol.

A11. Gall paneli poster fod yn dderbyniol ar furiau ystlys adeiladau, ond ni ddylent fod yn rhy ddominyddol, a dylent gael eu dylunio a'u lleoli er mwyn ymddangos fel nodwedd annatod ar yr adeilad.

A12. Wrth benderfynu a yw'n briodol arddangos panel poster ar adeilad ar sail amwynder, y maen prawf pwysicaf yw'r effaith weledol gyffredinol a gaiff yr arddangosiad ar gyfanrwydd yr adeilad a'i amgylchoedd. Wrth bwysu a mesur yr effaith hon, gall diben yr adeilad ei hun fod yn llai pwysig na'r diben y cafodd yr adeilad ei ddylunio a'i godi ar ei gyfer yn wreiddiol.

(iii) Arddangosfeydd arunig wrth ochr y ffordd

A13. Dylai paneli arunig wrth ochr y ffordd gyd-fynd â graddfa'r adeiladau o bobtu iddynt ac yn yr ardal gyfagos bob amser, yn yr un ffordd yn union ag unrhyw ddatblygiad masnachol arall. Fel arfer mae hysbysfyrddau mawr i bosteri y tu ôl i'r palmant, neu mewn lleoliadau amlwg eraill, yn creu effaith weledol sy'n dominyddu eu hamgylchoedd, ac felly mae angen eu lleoli'n arbennig o ofalus i sicrhau nad ydynt yn cael effaith lethol ar gerddwyr.

Ardaloedd cadwraeth

A14. Gall poster hysbysebu fod yn briodol yn y rhannau o ardaloedd cadwraeth lle ceir siopau a busnes yn bennaf, er bod rhaid gofalu i sicrhau bod y ffordd o gyflwyno unrhyw bosteri a arddangosir mewn ardal gadwraeth yn cyd-fynd â nodweddion pensaernïol neu hanesyddol yr ardal. Mewn rhai ardaloedd, bydd panel poster llai o faint yn fwy priodol ar gyfer graddfa'r adeiladau. Ceir ystyriaethau tebyg mewn ardaloedd sydd, er eu bod heb eu dynodi'n ffurfiol fel ardaloedd cadwraeth, yn cynnwys adeiladau o ragoriaeth bensaernïol neu hanesyddol sylweddol, neu lle mae gwerth nifer o adeiladau fel grwp yn eithriadol.

Mannau agored ac adeiladau dinesig

A15. Gall hysbysebion poster fod yn briodol o'u gweld ochr yn ochr â pharciau a manau agored, neu ag adeiladau dinesig, os oes mathau eraill o weithgarwch masnachol, e.e. adeiladau siop modern, i'w gweld yn gyfochrog â'r manau neu'r adeiladu hynny hefyd. Er hynny, lle byddai unrhyw fath o weithgarwch masnachol yn tynnu oddi ar urddas neu gymeriad yr ardal, byddai poster hysbysebu yr un mor amhriodol.